# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 11 Mehefin 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(137)

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.22

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid: Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i Hybu Twf a Swyddi – Adroddiad Blynyddol 2013

Dechreuodd yr eitem am 14.33

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Datganiad Polisi ar Addysg Uwch

Dechreuodd yr eitem am 15.08

### 5 Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Cymreig Amgen) 2013

Dechreuodd yr eitem am 15.51

**NDM5261 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Prentisiaethau (Amodau Cwblhau Cymreig Amgen) 2013 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mai 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 6 Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013

Dechreuodd yr eitem am 15.52

**NDM5131 Carwyn Jones (Pen-y-Bont ar Ogwr)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn y Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) 2013, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Ionawr 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 7 Dadl: Y frech goch a phwysigrwydd rhaglenni brechu

Dechreuodd yr eitem am 15.59

**NDM5260 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r ymateb i'r achosion diweddar o'r frech goch; a

2. Yn cydnabod pwysigrwydd rhaglenni brechu plant.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo'n unol â hynny:

Yn mynegi ei ddiolch i staff gweithgar Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg a swyddogion cyhoeddus eraill yn Abertawe ac mewn mannau eraill am y gwaith y maent wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â'r achosion o'r frech goch.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am ymholiad cyhoeddus llawn ac annibynnol er mwyn dysgu gwersi yn sgîl yr achosion hyn, ac i leihau'r tebygrwydd o ragor o achosion yn y dyfodol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 42 | 55 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder ynghylch arferion rhai cwmnïau preifat o ran marchnata brechlynnau heb eu trwyddedu a phresgripsiwn yn unig, ac am yr honiadau camarweiniol a wnaethpwyd gan rai clinigau brechiad sengl ynghylch y brechlyn MMR cyfun.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5260 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r ymateb i'r achosion diweddar o'r frech goch; a

2. Yn mynegi ei ddiolch i staff gweithgar Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg a swyddogion cyhoeddus eraill yn Abertawe ac mewn mannau eraill am y gwaith y maent wedi ei wneud wrth fynd i'r afael â'r achosion o'r frech goch.

3. Yn cydnabod pwysigrwydd rhaglenni brechu plant.

4. Yn mynegi pryder ynghylch arferion rhai cwmnïau preifat o ran marchnata brechlynnau heb eu trwyddedu a phresgripsiwn yn unig, ac am yr honiadau

camarweiniol a wnaethpwyd gan rai clinigau brechiad sengl ynghylch y brechlyn MMR cyfun.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 16.37

Cafodd y cyfarfod ei ohirio a'i ail-gynnull am 16.42 ar gyfer y Cyfnod Pleidleisio.

**8 Dadl Fer - gohiriwyd o 8 Mai 2013**

Dechreuodd yr eitem am 16.44

**NDM5234 Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)** Gwybod am y Gwenyn: Rôl gwyddoniaeth o ran gwarchod iechyd gwenyn fel peillwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:10

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 12 Mehefin 2013**